**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Medi 2011

Mae'r papur hwn yn amlinellu polisïau a darpariaethau sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Gall strategaethau groesi ar draws sawl maes polisi gwahanol a cânt eu datblygu ar lefel y Deyrnas Unedig, lefel Cymru ac ar lefel leol. Mae'r darlun o ddarpariaeth yn gymhleth.

Mae'r papur yn rhoi sylw i rai o'r heriau sy'n wynebu llunwyr polisi ac asiantaethau sy'n gweithio yn y maes polisi hwn, ac yn archwilio barn rhanddeiliaid ynghylch pa fathau o gymorth sy'n gweithio orau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny. Mae hefyd yn amlinellu rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu'r bobl ifanc hyn.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/0927

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Medi 2011

Rachel O'Toole

Rhif dogfen: 11/051

Gwasanaeth Ymchwil

# Crynodeb

Mae'r papur hwn yn amlinellu polisïau a darpariaethau sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Gall strategaethau groesi ar draws sawl maes polisi gwahanol a cânt eu datblygu ar lefel y Deyrnas Unedig (DU), lefel Cymru ac ar y lefel leol. Gall y darlun o ddarpariaeth fod yn gymhleth, a caiff pwysigrwydd cydlynu'r ddarpariaeth ac integreiddio polisïau ei drafod yn aml fel rhan o'r ddadl 'NEET'.

Mae yna gysylltiad rhwng tlodi a chyflawniad addysgol isel yng Nghymru, a thynnir sylw'n aml at bwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar yn y sefyllfa mewn perthynas â'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Nid yw canran pobl ifanc NEET yng Nghymru wedi newid rhyw lawer dros y degawd diwethaf.[1] Mae ffigurau NEET hefyd yn bryder i wledydd eraill y DU, ac mae rhai o'r farn bod mynd i'r afael â'r mater yn broblem bolisi a fydd yn anodd i fynd i'w thrin.[2]

Tra bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch pa ffurf y dylai'r strategaethau hyn ei gymryd a'r ffordd orau o'u rhoi ar waith, gall prosiectau penodol a gaiff eu darparu ar lefel leol fod yn achubiaeth hanfodol[3] i unigolion NEET.

Mae'r papur hefyd yn rhoi sylw i rai o'r heriau sy'n wynebu llunwyr polisi ac asiantaethau sy'n gweithio yn y maes polisi hwn, ac yn amlinellu rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu pobl ifanc sydd, neu sydd mewn perygl o fod, yn NEET. Ymhlith y materion eraill a drafodir, mae'r canlynol: pa fath o ddarpariaeth sydd ar gael, neu a ddylai fod ar gael, i gyrraedd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac ar ba lefel (y DU; Cymru; lefel leol); pa ddulliau a ddefnyddir mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; a barn rhanddeiliaid ynghylch pa fathau o gymorth sy'n gweithio orau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny.

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2010)* (Saesneg yn unig), 27 Gorffennaf 2011 (Tabl 1: Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yng Nghymru, blwyddyn calendr ). [fel ar 16 Awst 2011]

[2] Demos, www.demos.co.uk, Sodha, S., Margo., J, *"A generation of disengaged children is waiting in the wings"*, 2010 [fel ar 16 Awst 2011] a Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010, t3. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau

[3] Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010, t3. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... **1**

**2. Y rhifau** ..... **1**

2.1. Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith ..... 2
2.2. Bwletin ystadegol: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ..... 3

**3. Y prif faterion a ffactorau** ..... **6**

3.1. Ymyrryd yn gynnar ..... 6
3.2. Cysylltiad rhwng tlodi plant a phobl NEET ..... 7
3.3. Ysgolion a'r cwricwlwm ..... 8
3.4. Digartrefedd a phroblemau gyda tai ..... 9
3.5. Dyblygu'r ddarpariaeth a'r 'trobwll' NEET ..... 10
3.6. Sgiliau sylfaenol a sgiliau meddal ..... 11
3.7. Cymorth tymor hir ac angen tymor hir ..... 11
3.8. Ystyriaethau ehangach ..... 12

**4. Strategaethau a darpariaeth** ..... **13**

4.1. Llywodraeth Cymru ..... 13
4.2. Mentrau, strategaethau, a darpariaeth leol ..... 21
4.3. Polisïau ar lefel y DU ..... 25

**5. Rhai casgliadau** ..... **27**

*5.1. Edrych ymlaen* ..... 28

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

## 1. Cyflwyniad

Mae'r term 'NEET' yn disgrifio carfan ystadegol o bobl ifanc nad ydynt mewn unrhyw fath o addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Caiff ystadegau eu coladu ar wahân ar gyfer y grwpiau oedran 16 i 18 ac 19 i 24.

Mewn gwirionedd, mae'r 'grŵp' NEET yn hynod amrywiol ac yn cynnwys pobl ifanc sy'n ddi-waith ac yn edrych am waith yn ogystal â'r rhai sy'n 'economaidd anweithgar'. Mae'n bosibl bod gan rai yn y garfan gyfrifoldebau gofalu a/neu anghenion cymhleth eraill, a gall rhai ohonynt fod yn bobl ifanc NEET sy'n cymryd 'blwyddyn i ffwrdd' neu ar gyfnod o 'drawsnewid'.

Nid yw canran pobl ifanc NEET yng Nghymru wedi newid rhyw lawer dros y ddegawd ddiwethaf.[4] Mae ffigurau NEET yn rhannau eraill o'r DU hefyd yn peri pryder, ac mae cyflwr yr economi'n ddiweddar yn her ychwanegol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r rhesymau dros beth sy'n achosi pobl ifanc i fod yn NEET yn gymhleth ac amrywiol. Mae adroddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig yn cyfeirio at cwlwm o faterion sy'n gysylltiedig â lleihau'r nifer o bobl NEET, ac yn nodi y gallai'r broses o gael statws NEET ddechrau'n fuan iawn mewn bywyd.[5] Gall ffactorau risg gynnwys pobl ifanc yn cael eu cam-drin yn gorfforol a/neu'n emosiynol yn eu cartrefi; pobl ifanc yn pellhau oddi wrth weithwyr proffesiynol yn yr ysgol am ba bynnag reswm; pobl ifanc yn gwyro i ddarpariaethau 'ffiniol' fel Unedau Cyfeirio Disgyblion[6]; rhieni yn eu harddegau a lefelau gwael o lythrennedd.[7] I nifer o'r bobl ifanc hyn gall ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant fod yn ganlyniad nifer o rwystrau a phroblemau tra gall rhai pobl gael eu hunain, yn annisgwyl, yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, oherwydd un digwyddiad yn eu bywydau, er enghraifft profedigaeth yn y teulu.[8]

## 2. Y rhifau

Yn ei dogfen, *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*[9], a gyhoeddwyd yn 2006, pennodd Llywodraeth Cymru darged y **bydd 93 y cant o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant erbyn 2010.**

[4] Llywodraeth Cymru, *Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2010)* (Saesneg yn unig), 27 Gorffennaf 2011 (Tabl 1: Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, blwyddyn calendr). [fel ar 16 Awst 2011]
[5] Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010, pennod 4. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau
[6] *Ibid*, t40
[7] *Ibid*, tudalennau 3 a 46
[8] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 12 Ionawr 2011. [fel ar 16 Awst 2011]
[9] Llywodraeth Cymru, *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, 2006. [fel ar 16 Awst 2011]

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dau gasgliad gwahanol o ystadegau ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Caiff y Datganiad Ystadegol Cyntaf, *Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith,* ei gyhoeddi'n flynyddol ym mis Gorffennaf, a caiff y Bwletin Ystadegol, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant,* ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn (ym mis Ionawr, Hydref, Ebrill a Gorffennaf).

## *2.1. Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith*

Y Datganiad Ystadegol Cyntaf ('SFR'), *Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith*[10], yw'r ffynhonnell fwyaf cadarn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amcangyfrifon o nifer y bobl ifanc NEET yng Nghymru.

Mae'r SFR diweddaraf (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011) yn cynnwys y data terfynol ar gyfer 2009 ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2010. Amcangyfrifir cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith drwy ddefnyddio ffigurau poblogaeth, data am addysg a dysgu'n seiliedig ar waith, yn ogystal â data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol er mwyn amcangyfrif statws y farchnad waith. Mae'r tabl isod o'r datganiad yn amcangyfrif bod **11.0 y cant o bobl ifanc 16 i 18 oed a 22.8 y cant o bobl rhwng 19 a 24 oed yng Nghymru yn NEET yn 2010**.

**Tabl 1: Amcangyfrif o'r rhai sydd mewn addysg/hyfforddiant neu nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant *na* chyflogaeth (NEET)**

*y cant*

| Blwyddyn a ddaw i ben | 16 i 18 oed | | 19 i 24 oed | |
|---|---|---|---|---|
| | **mewn addysg neu hyfforddiant** | **NEET** | **mewn addysg neu hyfforddiant** | **NEET** |
| **Pobl** | | | | |
| 2004 (r) | 73.1 | 11.6 | 39.0 | 16.1 |
| 2005 (r) | 74.5 | 10.3 | 39.1 | 17.5 |
| 2006 (r) | 75.4 | 10.0 | 38.5 | 18.0 |
| 2007 (r) | 74.3 | 11.8 | 37.4 | 17.6 |
| 2008 (r) | 75.9 | 12.4 | 36.3 | 17.6 |
| 2009 (r) | 78.2 | 12.2 | 37.1 | 22.0 |
| 2010 (p) | 80.1 | 11.0 | 38.6 | 22.8 |

(p) Data dros dro sydd ar gyfer y flwyddyn hon.
(r) Mae'r data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'i ddiwygio.
**Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**, fel y cyfeiriwyd atynt yn yr SFR *Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith,* 27 Gorffennaf 2011**

[10] Llywodraeth Cymru, *Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Addysg a'r Farchnad Lafur, 2009 a 2010 (dros dro)*, (Saesneg yn unig) 27 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

Mae'r SFR hefyd yn darparu amcangyfrifon o'r gyfran o bobl ifanc NEET ar gyfer pob gwlad yn y DU ar gyfer 2009 a 2010, ac yn dangos mai **perfformiad Cymru yw'r gwaethaf ar gyfer y categori oedran 19 i 24**. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu gwneud gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth **yn unig**, ac nid yw'n bosibl eu cymharu'n uniongyrchol felly gyda data eraill yn yr SFR.

**Tabl 2: Amcangyfrif o'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), yn ôl oedran a gwlad, 2009 a 2010**

*y cant*

| | 16 i 18 mlwydd oed | | 19 i 24 mlwydd oed | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009 (r)** | **2010** | **2009 (r)** | **2010** |
| Cymru | 11.9 | 11.5 | 21.3 | 23.2 |
| Lloegr | 11.1 | 10.7 | 18.7 | 19.3 |
| Yr Alban | 13.0 | 13.6 | 17.6 | 18.4 |
| Gogledd Iwerddon | 9.7 | 7.1 | 19.2 | 19.8 |
| **Y DU** | 11.2 | 10.9 | 18.7 | 19.4 |

**Ffynhonnell:** Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**, fel y cyfeiriwyd atynt yn yr SFR *Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad waith,* 27 Gorffennaf 2011**
(r) Mae'r data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'i ddiwygio.

## *2.2. Bwletin ystadegol: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)*

Yn ogystal â chyhoeddi'r SFR yn flynyddol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi bwletin ystadegol, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)*[11]. Cyhoeddwyd y bwletin diweddaraf ym mis Gorffennaf 2011, ac mae'r bwletin nesaf i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2011 (dros dro). Mae'r Bwletin yn cynnwys dadansoddiad yn ôl rhyw, oed a rhanbarth.

Gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar sampl gymharol fechan o bobl ifanc 16 i 18 oed ac felly **yn llai cadarn yn ystadegol** na'r rhai a gaiff eu cyhoeddi yn yr SFR. Dylid cymryd gofal wrth gymharu amcangyfrifon o'r Bwletin Ystadegol (sy'n defnyddio ffigurau poblogaeth, data am addysg a dysgu'n seiliedig ar waith, yn ogystal â data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol).

Prif ffocws y Bwletin Ystadegol yw'r grŵp oedran 16 i 18 oed, er bod ystadegau ar gyfer y grŵp oedran 19 i 24 oed hefyd wedi'u cynnwys yn y tablau er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn. Ar gyfer y flwyddyn **a ddaeth i ben yn chwarter 4 o**

[11] Llywodraeth Cymru, *Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2010)* (Saesneg yn unig), 27 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

**2010, roedd 11.5 y cant o bobl ifanc 16-18 oed yn NEET o'i chymharu â 11.9 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter 4 2009.**[12]

Mae Gyrfa Cymru yn ymgymryd ag arolwg blynyddol o'r rhai sy'n gadael ysgolion a gynhelir yng Nghymru er mwyn cael gwybod i le maent wedi mynd ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn.[13] Mae hyn yn rhoi amcangyfrifon o bobl ifanc NEET ym mis Hydref **ar ôl iddynt orffen Blwyddyn 11.** Mae'r wybodaeth ar gael ar lefel awdurdod lleol ac wedi'i chynnwys yn y Bwletin. Mae disgyblion mewn ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn yr arolwg, ond nid yw'r rhai sy'n mynd i golegau Addysg Bellach nac ysgolion annibynnol wedi'u cynnwys.[14] Gellir defnyddio'r arolwg i ystyried lefelau cymharol o bobl ifanc NEET yn ôl awdurdod lleol.

Mae'r data diweddaraf i'w weld isod:

**Tabl 3: Pobl sy'n gadael Blwyddyn 11 mewn ysgolion yng Nghymru y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl Awdurdod Unedol**

| | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 7.0 | 6.8 | 6.4 | 6.9 | 7.1 | 5.7 | 5.4 |
| Ynys Môn | 4.5 | 5.8 | 7.0 | 6.7 | 8.1 | 5.2 | 5.3 |
| Gwynedd | 6.2 | 4.6 | 5.4 | 4.4 | 5.7 | 4.2 | 3.6 |
| Conwy | 5.6 | 5.7 | 7.9 | 5.5 | 5.7 | 4.8 | 3.7 |
| Sir Ddinbych | 6.3 | 6.3 | 6.0 | 4.9 | 6.2 | 4.4 | 4.4 |
| Sir y Fflint | 5.4 | 4.9 | 3.9 | 4.6 | 7.2 | 3.7 | 2.8 |
| Wrecsam | 8.5 | 7.3 | 8.1 | 8.9 | 9.6 | 5.0 | 4.2 |
| Powys | 4.4 | 4.8 | 3.0 | 5.3 | 3.0 | 2.1 | 2.9 |
| Ceredigion | 3.4 | 3.6 | 2.2 | 2.6 | 3.8 | 2.3 | 2.3 |
| Sir Benfro | 5.2 | 6.6 | 3.6 | 4.7 | 6.4 | 4.8 | 4.8 |
| Caerfyrddin | 5.0 | 5.7 | 5.4 | 5.5 | 4.4 | 4.0 | 2.9 |
| Abertawe | 12.2 | 8.5 | 8.0 | 5.8 | 5.8 | 6.4 | 4.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 10.6 | 8.1 | 7.0 | 9.0 | 7.7 | 7.1 | 6.6 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 6.7 | 8.2 | 6.8 | 7.3 | 8.0 | 7.6 | 7.1 |
| Bro Morgannwg | 4.1 | 6.4 | 5.2 | 6.8 | 6.2 | 5.6 | 4.6 |
| Caerdydd | 7.4 | 8.4 | 8.8 | 8.5 | 10.6 | 8.9 | 8.8 |
| Rhondda, Cynon, Taff | 6.0 | 5.0 | 5.1 | 7.5 | 6.1 | 4.9 | 5.7 |
| Merthyr Tudful | 6.4 | 11.4 | 7.3 | 7.9 | 7.8 | 4.6 | 7.6 |
| Caerffili | 8.1 | 7.8 | 6.8 | 7.1 | 7.1 | 5.0 | 6.0 |
| Blaenau Gwent | 10.3 | 8.8 | 8.1 | 10.4 | 9.7 | 6.6 | 8.7 |
| Tor-faen | 6.7 | 6.9 | 7.9 | 10.5 | 10.1 | 8.2 | 7.0 |
| Sir Fynwy | 4.0 | 4.6 | 4.8 | 5.6 | 5.3 | 5.0 | 3.9 |
| Casnewydd | 9.2 | 9.2 | 9.0 | 9.3 | 10.4 | 9.1 | 7.5 |

**Ffynhonnell:** Gyrfa Cymru - Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru, fel y cyfeiriwyd atynt yn **Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru,** ***Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant,*** 27 Gorffennaf 2011

[12] *Ibid*, t1.
[13] *Ibid*, t7.
[14] Llywodraeth Cymru, *Cyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru, 2010*, a Gyrfa Cymru, *Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru, 2010* [fel ar 16 Awst 2011]

Yn 2010, cynhaliwyd ymchwiliad gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Trydydd Cynulliad i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Nododd Gyrfa Cymru yn ei thystiolaeth i'r ymchwiliad y dylai Llywodraeth Cymru 'ddefnyddio ac [...] ehangu cynhwysedd rheoli data Gyrfa Cymru yn hytrach na datblygu system olrhain a rheoli gwybodaeth genedlaethol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant'.[15] Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor:

> **Yr ydym yn argymell, fel rhan o adolygiad Gyrfa Cymru, y dylai'r Gweinidog** [dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes] **geisio cryfhau eu perfformiad o ran rheoli cofrestr genedlaethol gyson a chynhwysfawr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**, a hefyd o ran cynnal cronfa ddata a all gydweddu swyddi gwag â phobl ifanc ddi-waith. Yr ydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth [...] Cymru yn cadw swyddogaeth o fonitro perfformiad yn y maes hwn.[16] [fy mhwyslais i]

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi y gallai cronfa ddata bresennol Gyrfa Cymru fod yn gonglfaen ddefnyddiol ar gyfer datblygu system olrhain a rheoli data gynhwysfawr ar gyfer pobl ifanc NEET fel rhan o'r datblygiadau 'cadw mewn cysylltiad'. Nododd fod argymhelliad tebyg wedi'i gynnwys yn ei hadroddiad ar wasanaethau gyrfoedd yng Nghymru[17] a 'chaiff ei ystyried pan gaiff Gyrfa Cymru ei uno fel rhan o ddatblygiadau'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid'. Fodd bynnag, bydd y broses o ddatblygu'r argymhelliad yn 'llwyr ddibynnol ar strwythur, cyllidebau a blaenoriaethau perthnasol Gyrfa Cymru yn y dyfodol'.[18]

Ar gyfer pobl ifanc anabl yn benodol, roedd ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu yn argymell:

> **Argymhelliad 3.** Ac ystyried bod pobl ifanc anabl ddwywaith mor debygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant â phobl nad ydynt yn anabl, yr ydym yn argymell y dylai cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddi data'n rheolaidd yng nghyswllt anabledd a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.[19]

Unwaith eto, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan nodi y byddai'n archwilio cadernid ac addasrwydd cyhoeddi dadansoddiad o bobl ifanc NEET mewn perthynas ag anabledd.[20]

---

[15] *Tystiolaeth a baratowyd gan Gyrfa Cymru ar gyfer yr ymchwiliad i Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant*. [fel ar 1 Awst 2011]
[16] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010
[17] Llywodraeth Cymru, *Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru*, 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[18] *Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 5 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011
[19] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010
[20] *Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 5 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011

## 3. Y prif faterion a ffactorau

Mae polisïau sy'n berthnasol i bobl ifanc y cyfeirir atynt fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn torri ar draws sawl disgyblaeth yng Nghymru ac ar lefel y DU, gan gynnwys datblygu economaidd, tlodi plant, iechyd meddwl, addysg, hyfforddiant a sgiliau, iechyd a lles, trafnidiaeth, cyffuriau ac alcohol, cydraddoldeb, ieuenctid, budd-daliadau a thai. Er y gallai'r ffaith bod y mater yn torri ar draws sawl maes fod yn fanteisiol, er enghraifft i sicrhau cyllideb, mae hefyd yn cynnig cryn her i asiantaethau feddwl a gweithio gyda'i gilydd i ddatrys y broblem.

Mae'r teilyngdod neu ddiffyg teilyngdod o ddefnyddio'r term 'NEET' wrth gyfeirio at y garfan o bobl ifanc hefyd wedi bod yn destun rhai dadleuon. Nid yw pawb yn gyfforddus i ddefnyddio'r term 'NEET' fel enw, neu fel 'label' ar gyfer y bobl ifanc hyn.[21]

### *3.1. Ymyrryd yn gynnar*

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan y felin drafod, Demos:

> For young people, being NEET is associated with a host of poor employment and health outcomes later in life, and a greater likelihood of offending and ending up in prison.[22]

Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi bod un amcangyfrif diweddar yn awgrymu mai cost pob person NEET rhwng 16 ac 18 oed yn y DU yw tua £120,000, yn ôl prisiau 2009, oherwydd costau di-weithdra, gwasanaethau iechyd a'r system cyfiawnder troseddol. Yn ôl yr adroddiad, mae hyn yn golygu mai cost y genhedlaeth bresennol o bobl ifanc NEET 16-18 oed fydd £31.3 biliwn dros eu hoes.[23]

Mae awduron yr adroddiad yn dadlau nad yw mentrau polisi wedi gweithio i ddatrys y broblem anhydrin hon, a'r rheswm dros hynny yw eu bod wedi'u cynllunio i gael effaith yn rhy hwyr, pan fydd person ifanc wedi dadymafael o'i addysg. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu pwysigrywdd datrys problemau sy'n achosi dadymafael, er enghraifft llythrennedd a rhifedd gwael a chymorth gyda rhianta yn y blynyddoedd cynnar.

Wrth gyhoeddi'r *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011*, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Mae tystiolaeth wedi dangos mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wella cyfleoedd bywyd plant yw drwy roi cymorth iddynt yn ystod eu blynyddoedd cynharaf, gan dorri'r cylchoedd sy'n rhan o

---

[21] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, *Nid enw yw NEET*, 8 Chwefror 2010, a Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010 [fel ar 16 Awst 2011] Ar gael o lyfrgell yr Aelodau
[22] Demos, www.demos.co.uk, Sodha, S., Margo., J, *"A generation of disengaged children is waiting in the wings"*, 2010 [fel ar 16 Awst 2011]. Crynodeb o'r adroddiad, gweler tudalennau 13 i 35 o'r adroddiad.
[23] *Ibid*

> fywydau rhai o'n plant mwyaf difreintiedig ac agored i niwed, a rhoi cyfle i dyfu, llwyddo a chyflawni.[24]

Cafodd pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a chynnig cymorth i bobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o hynny, ei nodi hefyd mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r ddarpariaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.[25]

## *3.2. Cysylltiad rhwng tlodi plant a phobl NEET*

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad rhwng tlodi plant a chyflawniad addysgol isel.

Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Bevan:

> In Wales there is a strong link between child poverty and low educational attainment. Data for 2008 shows that 61.9% of children aged 15 who were not eligible for free school meals achieved 5 or more GCSEs at grade A-C compared with 28.0% of children who were eligible for free meals. The findings at other Key Stages show a similar pattern.[26]

Mewn tystiolaeth i ymchwiliad i dlodi plant gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc[27], nododd yr Athro David Egan, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Addysg Gymhwysol UWIC[28]:

> **Socio-economic class in Wales is a dowry leading to low educational performance** and in the vast majority of cases the more of them that bring that dowry with them to their place of education, the worse they and it will do.[29] [fy mhwyslais i].

Yn ei farn ef:

> The **current strong, enduring and symbiotic association between poverty and low educational achievement in Wales** represents nothing less than a blight on our nation, the life-chances of a significant number of its citizens and the wider aspirations of the Welsh [...] Government to create a prosperous country at ease with itself. [fy mhwyslais i].

Wrth drafod y cysylltiad rhwng tlodi ac anfantais a chyflawniad addysgol isel, nodwyd mewn adroddiad arall gan Sefydliad Bevan:

> A growing and increasingly robust corpus of research-based evidence exists on the reasons why poverty and disadvantage can lead to low educational achievement. This evidence points to the following dominant factors:
>
> - The critical influence of the level of education of parents, particularly of the mother.

---

[24] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 12 Ionawr 2011. [fel ar 16 Awst 2011]

[25] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011], a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gafwyd mewn ymateb i'r galw am dystiolaeth [fel ar 16 Awst 2011]

[26] Sefydliad Bevan mewn partneriaeth â Llais Defnyddwyr Cymru, National Energy Action - Cymru ac Achub y Plant gyda deunydd ychwanegol gan y Sefydliad Polisi Newydd, *Paying the Price of Being Poor*, Tachwedd 2009

[27] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad dilynol i dlodi plant: ai addysg yw'r ateb?* (2011), ymchwiliad dilynol i *Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb?* (2008) [fel ar 16 Awst 2011]

[28] Datganiad i'r wasg gan UWIC, *Professor Studies Performance of Under-privileged Children in Wales*. [fel ar 3 Awst 2011]

[29] Tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r ddarpariaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, *Educational equity and school performance in Wales* [fel ar 16 Awst 2011]

- **The important influence of neighbourhoods and places, particularly in relation to disengagement of older school students (14-16 year olds) and the tendency for them to become NEET.** [fy mhwyslais i].
- The attitude held by parents and particularly young people themselves to the value of education, including their attitude to higher education.
- Resources within the home environment, particularly access to a computer and the internet. [30]

Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi:

> '[while] some of the above are factors that schools can attempt to influence, [...] there are others where schools, or schools alone are not able to respond'.

Mae hefyd yn dweud:

> The recently developed field of research relating to student aspirations and attitudes to progression into higher education, for example, suggest that whilst schools can play an important part, individual student, peer, family and **neighbourhood influences are much stronger**.[31] [fy mhwyslais i].

Ymhlith yr enghreifftiau o weithredu cymunedol i fynd i'r afael â dysgu ac ymgysylltu yn y DU ceir rhaglen *Challenge* yn Lloegr, sy'n weithredol yn Llundain, Manceinion Fwyaf a'r Ardal Ddu, a Rhaglen Addysg Blaenau'r Cymoedd yng Nghymru. Trafodir rhain yn nes ymlaen yn y ddogfen hon (tudalennau 21 a 22).

Yn ei *Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd ei hymdriniaeth i ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn cynnwys 'dadansoddi ardaloedd lle mae problem o ran pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gyda golwg ar rannu arfer da.'[32]

## *3.3. Ysgolion a'r cwricwlwm*

Mae rôl athrawon i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o fod yn bobl NEET wedi bod yn destun sawl trafodaeth, ac mae erthygl a gyhoeddwyd yn y *Times Educational Supplement Cymru* yn nodi'r pwyntiau a ganlyn am y mater:

> Neet expert Howard Williamson, professor of European youth policy at Glamorgan University, said teachers have a responsibility to be the "first alarm bell" for pupils at risk of becoming Neet.
> "The whole population of children go to school, so there should be a duty on teachers to spot problems that may have an impact on their lives," he said. "It's absolutely sensible, both socially and economically, to get in there as early as possible - prevention rather than intervention."

[30] Sefydliad Bevan, *Poverty and Social Exclusion in Wales*, Rhagfyr 2010, t76 [fel ar 16 Awst 2011]
[31] *Ibid*
[32] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*, Datganiad ysgrifenedig gan y Cabinet, 12 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

Rex Phillips, Wales organiser of teaching union the NASUWT, said most teachers see it as part of their role to spot pupils at risk of dropping out of school and would welcome the training.
But he said "appropriate external agencies" should do the follow-up work, not teachers.[33]

Un o gamau gweithredu Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015 Llywodraeth Cymru yw:

> Drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, sicrhau ymwybyddiaeth o ddelio'n effeithiol â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae adroddiad gan Sefydliad Bevan yn cyfeirio at dystiolaeth gan yr Unol Daleithiau:

> [B]oth high quality early years education and continuing support through 8-14 education are necessary if disadvantaged students are to achieve the 'exit velocity' that will enable them to succeed as older students and young adults.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at gwricwlwm i fyfyrwyr 14 i 16 oed sy'n ymwneud â phob myfyriwr, sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial ac fe'i cefnogir gan strategaethau ymyrraeth sy'n mynd i'r afael ag ymddieithrio a dyheadau isel[34] ac yn nodi bod tystiolaeth gref mai dyma'r **trobwynt** o ran myfyrwyr yn cyfrannu at addysg a hyfforddiant, gan gynnwys addysg uwch, ôl-19. Mae'n dweud:

> If they continue to be engaged between the ages of 14 and 16 and are able to achieve a Level 2 qualification (the equivalent of five higher grades at GCSE) then they are much more likely to proceed post 16 and then post 19.[35]

## *3.4. Digartrefedd a phroblemau gyda tai*

Mae nifer o unigolion sy'n defnyddio cymorth sy'n gysylltiedig â thai a digartrefedd yn bobl NEET neu wedi bod yn bobl NEET.[36]

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Menter a Dysgu y Trydydd Cynulliad, dywedodd Cymorth Cymru:

> provision in this non-mainstream setting, by third sector providers, [is] a **key delivery mechanism within the NEETS agenda'**. [fy mhwyslais i].

Nododd hefyd:

> Often the individuals supported in [the housing related support / homelessness] sector are disengaged with formal education or employment programmes, but flourish in familiar

---

[33] Evans, D., Teachers' new role: spotting future Neets, *Times Educational Supplement Cymru*, 21 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[34] Sefydliad Bevan, *Poverty and Social Exclusion in Wales*, Rhagfyr 2010, t80 [fel ar 16 Awst 2011]
[35] *Ibid*
[36] *Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ymateb gan Cymorth Cymru*, (Saesneg yn unig) 14 Mehefin 2010 [fel ar 16 Awst 2011]

> surroundings where they have a strong trust-based relationship with the organisation that is supporting them through a number of issues.[37]

## *3.5. Dyblygu'r ddarpariaeth a'r 'trobwll' NEET*

Yn ogystal â chroesi ar draws sawl maes polisi, mae strategaethau a darpariaethau ar gyfer pobl ifanc NEET yn bodoli ar sawl lefel – yn y DU, yng Nghymru ac yn lleol. Gall hyn arwain hefyd at ddyblygu'r ddarpariaeth.

Mae Gyrfa Cymru wedi dweud bod argaeledd Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi'r agenda ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 'wedi arwain at amlhad asiantau a phrosiectau'n gweithio gyda'r grŵp cleient'. Mae'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddatblygu'r ymateb strategol trawsadrannol diweddar i Ddiweithdra Ieuenctid mewn partneriaeth â phrif sefydliadau allanol er mwyn 'cyflawni dull cydgysylltiedig wedi ei gydlynu, gan leihau dyblygiad a datblygu ar ymarfer da a ganfyddir'. Awgrymodd hefyd, oherwydd bod tirwedd y ddarpariaeth yn gymhleth i bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, y dylid sefydlu un asiantaeth i gydlynu cefnogaeth a helpu i sicrhau bod asiantaethau'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd.[38]

Mewn adroddiad, daeth y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r casgliad bod angen i'r syndrom 'drysau troi' neu 'drobwll NEET', sy'n cyfeirio at bobl ifanc sy'n symud o ddarparwr i ddarparwr heb wneud unrhyw gynnydd, gael ei dorri.[39] Fe ddywedodd, tra nad oes prinder dyhead na strategaethau yng nghyswllt pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 'bod angen gweithredu mwy effeithiol ar lawr gwlad – gweithio'n well mewn partneriaeth a gwell cydweithredu rhwng gwahanol asiantaethau i sicrhau continwwm o gefnogaeth, a chydlyniad rhwng gwahanol raglenni.'[40]

Tra bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch ar pa ffurf y dylai strategaethau ar gyfer pobl ifanc NEET fod, a'r ffordd orau o'u rhoi ar waith, mae'n amlwg fod hwn yn fater anodd i'w ddatrys. Mae Stevie Upton yn trafod hyn mewn cyhoeddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig:

> the decades of policy targeted in this direction attest to the lack of a simple solution, and the NEETs agenda has come to be seen as a particularly intractable policy 'problem'.[41]

Fodd bynnag, gall prosiectau fod o bwysigrwydd unigol allweddol i bobl ifanc NEET, fel y nododd Stevie Upton:

---

[37] *Ibid*
[38] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[39] *Ibid*
[40] *Ibid*
[41] Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010, t3. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau

…whilst no policy yet has provided a global panacea, existing initiatives often represent a vital lifeline to the individuals they help.[42]

## *3.6. Sgiliau sylfaenol a sgiliau meddal*

Mae sylwebwyr yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol datblygu sgiliau sylfaenol, yn enwedig ar gyfer NEETs tymor hir. Yn yr un cyhoeddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig, gofynnodd Richard Newton o Rathbone Cymru y cwestiwn a ganlyn:

> How would you feel entering a Job Centre or careers office and having to admit to the fact that you couldn't read or write?[43]

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, pwysleisiodd Fairbridge De Cymru bod angen i bobl ifanc ddatblygu "sgiliau meddal" er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus yn y byd gwaith. Dywedodd:

> All too often we see young people being sent to training providers who are not ready to engage at that level of learning. This results in them dropping out and either being lost in the system or sent around the system again to face continual feelings of failure.

Roedd Fairbridge De Cymru, Rathbone Cymru a Llamau yn dadlau bod canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy, ac nid rhai ansoddol, yn ffafrio darparu cymwysterau achrededig yn hytrach na datblygu sgiliau mwy meddal, fel newid agweddau a datblygu personol.[44]

## *3.7. Cymorth tymor hir ac angen tymor hir*

Roedd adroddiad a gomisiynwyd gan Fairbridge yn 2010 yn cynnwys casgliadau tri astudiaeth yn gwerthuso'i gwaith dros y degawd diwethaf. Roedd yn nodi:

> Results of the analysis show that **long-term improvements** which many young people experience appear to be due to three main things about Fairbridge. The most important factor appears to be the **quality of relationships** that young people experience in Fairbridge, most notably a mutually trusting and respectful relationship with a staff member, but also good relationships with a new peer group. The second most important factor is the **'style' or 'ethos'** of Fairbridge – the way that things are done, such as the combination of fun and discipline. The third most important factor is the **activities on the course**.[45] [Fy mhwyslais i].

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dygsu, roedd Francis Crowe o Brifysgol Cymru, Casnewydd, yn galw am ganolbwynt polisi sy'n cydnabod yr angen tymor hir mwyaf:

---

[42] *Ibid*
[43] *Ibid*, t32
[44] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[45] Knight, B. *Back from the Brink. How Fairbridge transforms the lives of disadvantaged young people*, (Centris), 2010 [fel ar 16 Awst 2011]

> There should be a stronger emphasis on the 14-19 strategy of developing links between School, Universities and Employers most particularly in those areas with the lowest levels of participation in higher education and the highest levels of economic inactivity and poor health/ morbidity indicators. **Let's have a policy focus that recognises greatest long term need.**[46] [Fy mhwyslais i].

### *3.8. Ystyriaethau ehangach*

Yn ôl Sefydliad Bevan,

> It could be said to be a reasonable criticism of education policy – and perhaps other policy areas – since devolution that we have become **policy rich and implementation poor.** [Fy mhwyslais i].

Dyweda hefyd:

> If a strategy that is intended to improve equity in education outcomes in our schools is to succeed then it is equally important that we develop innovative and effective approaches to implementing the strategy.[47]

Mae pryderon ynghylch argaeledd swyddi i bobl ifanc yn bodoli hefyd. Mae'r Athro Howard Williamson o Brifysgol Morgannwg yn dweud:

> You can upskill young people and keep them in education, but ultimately if you are not creating more jobs you just get qualification inflation.[48]

Mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu gan y prosiect 'Dewis Cyntaf' ar gyfer pobl ifanc yn Abertawe yn cyfeirio at yr angen i gadw pobl ifanc yn ymgysylltiedig yn feddyliol ac yn ysbrydol dros yr hyn a allai fod yn gyfnod o ddiweithdra.[49]

Yn ystod ymweliad y Pwyllgor Menter a Dysgu â'r ganolfan Info-Nation yn Abertawe, clywodd y Pwyllgor gan bobl ifanc a oedd wedi mynychu'r cwrs Adeiladu Sgiliau i wella eu sgiliau meddal/sylfaenol. Er bod y pobl ifanc y gwnaeth y Pwyllgor siarad â hwy yn teimlo ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol, roeddent wedi'u dadrithio gan nad oedd unrhyw gyfleoedd gwaith ar gael ar ôl i'r cyfnod o 13 wythnos ddod i ben. Mynegodd llawer o'r pobl ifanc a'u gweithwyr prosiect bryder ynghylch y diffyg cyffredinol o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. 'Just give us a job', oedd yr hyn a ddywedwyd i'r pwyllgor.[50]

---

[46] *Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch pobl ifanc nad ydynt newb cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)* [fel ar 16 Awst 2011]
[47] Y Sefydliad Bevan, *Poverty and Social Exclusion in Wales*, Rhagfyr 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[48] *Minister for Neets? That's barmy, says expert*, *Times Educational Supplement*, [arlein] 22 Hydref 2010. [fel ar 16 Awst 2011]
[49] First Choice Project / Prosiect Dewis Cyntaf,crynodeb o'r adroddiad terfynol, Tachwedd 2010. Ariennir y Prosiect Dewis Cyntaf gan raglen 'Reach the Heights' Rhaglen Cronfa Cymdeithasol Ewrop a ddosberthir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
[50] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011]

## 4. Strategaethau a darpariaeth

Mae strategaethau sy'n berthnasol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn deillio o amrywiaeth o ddisgyblaethau. Cânt eu datgblygu ar lefel y DU, lefel Cymru a'r lefel lleol. Felly, gall darpariaeth fod yn gymhleth. Isod, ceir rhai enghreifftiau o bolisïau a darpariaeth ar lefel y DU, lefel Cymru a'r lefel lleol, gan roi syniad o pa mor gymhleth yw'r ddarpariaeth.

### *4.1. Llywodraeth Cymru*

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth a chynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â hi er mwyn *'lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru'.*[51] Roedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 16 a 18 yn unig. Yn 2010, comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau grŵp[52] i edrych ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru, ac yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru adroddiad a oedd yn edrych ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc mewn ffordd holistaidd.[53]

Clywodd Pwyllgor Menter a Dysgu y Trydydd Cynulliad dystiolaeth gan Gyrfa Cymru a oedd yn nodi, yn dilyn strategaeth Llywodraeth Cymru yn 2009 i leihau nifer y bobl NEET, na chafwyd unrhyw gynllun gweithredu manwl i egluro cyfrifoldebau pob partner a sefydliad sy'n gweithio gyda pobl, sy'n gyfrifol am eu cefnogi i ymgymryd â rhaglenni addysg a hyfforddiant. Galwodd Gyrfa Cymru am fwy o eglurder a chyfeiriad cliriach, nid yn unig o ran cyfeiriad strategol, ond hefyd i'w gwneud yn glir am beth mae pob un yn gyfrifol.[54]

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys yr argymhelliad **y dylai un Gweinidog arwain o ran cydlynu strategaethau a chynlluniau gweithredu, monitro y gwaith o'u gweithredu, a bod yn atebol ar lefel genedlaethol**.[55] Ymateb Llywodraeth Cymru oedd mai y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd yn bennaf gyfrifol am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

---

[51] Llywodraeth Cymru, *Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru*, Ebrill 2009 [fel ar 16 Awst 2011]
[52] Y grwpiau hyn oedd: (i) grŵp gweithredol mewnol i edrych ar siwrnai plant a phobl ifanc (o'u genedigaeth tan 24 oed) a all ymddieithrio rhag dysgu ac felly sydd mewn perygl o beidio â bod yn berson mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y dyfodol[52], a (ii) grŵp gorchwyl a gorffen allanol, o dan gadeiryddiaeth Martin Mansfield o TUC Cymru, a oedd yn edrych yn benodol ar beth y dylid ei wneud i leihau effaith y dirwasgiad ar bobl ifanc.
[53] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, *Symud ymlaen: y Sylfeini ar gyfer Twf*, Mai 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[54] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[55] *Ibid*

***Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc***

Ar 12 Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*.

Cynorthwywyd y cynllun gan waith y ddau grŵp a gomisiynwyd a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ac mae'n 'amlinellu dull Llywodraeth [...] Cymru o atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio o ddysgu a'u cefnogi i ymuno â'r farchnad lafur'. Nod cyffredinol y cynllun yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru, neu sydd mewn perygl o hynny yn y dyfodol.[56]

Mae'r cynllun yn cynnwys 18 o gamau gweithredu, sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o faterion, o ddarparu hyfforddwyr dysgu i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed i sefydlu rhaglen cyfrifon (banc) segur[57] i gefnogi pobl ifanc NEET.

Wrth gyhoeddi'r cynllun, dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ei fod 'yn dwyn ynghyd un rhaglen waith er mwyn hybu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc mewn ffordd strategol yng Nghymru'. Dywedodd hefyd:

> Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol mae Uned newydd wedi'i sefydlu i lywio polisïau a gweithgarwch arweiniol sy'n annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd yn sicrhau cydlyniant yn y dull adrannol cyffredinol o ddelio ag ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc.[58]

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu ym mis Gorffennaf 2011, cytunodd Leighton Andrews i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu yn y cynllun. [59] Roedd ei ddatganiad yn cyhoeddi'r cynllun hefyd yn cyfeirio at fesurau ataliol:

> Mae mesurau ataliol yn cynnwys cyhoeddi'r Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol a gyhoeddwyd gennyf y llynedd, y Strategaeth Tlodi Plant a rhaglenni cyfredol megis Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. [60]

Isod, ceir trosolwg o rai o brif bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i bobl ifanc NEET.

---

[56] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011 – 2015*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 12 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[57] Llywodraeth Cymru, *Issuing of Policy Directions for the Dormant Accounts Scheme for Wales*, (Saesneg yn unig), 28 Mawrth 2011
[58] *Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 5 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011
[59] Cofnod y Trafodion [para 55], 13 Gorffennaf 2011, Y Pwyllgor Menter a Busnes [fel ar 16 Awst 2011]
[60] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau), *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 12 Ionawr 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

### *Hyfforddwyr dysgu*

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn datgan:

> Mae'r cyfnod rhwng 14 a 19 oed yn adeg o drawsnewid mawr. I lawer o bobl ifanc, gall agweddau ar eu bywydau personol greu rhwystrau i ddysgu felly gall y gwasanaethau cymorth i ddysgwyr wneud y gwahaniaeth rhwng gwireddu eu potensial dysgu neu beidio. Un o agweddau allweddol Llwybrau Dysgu 14-19 yw'r pwyslais a roddir ar rôl y gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Bydd llawer o bobl ifanc yn llwyddo heb fawr ddim cymorth, bydd angen cymorth ar rai eraill ar adegau allweddol yn eu bywyd ac efallai y bydd angen cymorth mwy cyson ar eraill dros gyfnod hirach.[61]

Fel rhan o *Gynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-15*, bydd cynllun peilot ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth o hyfforddwyr dysgu i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed, 'gyda phwyslais penodol ar gefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, gyda golwg ar lywio arferion gorau.'

### *Cymwysterau*

Mewn cynhadledd ym mis Chwefror 2011, cododd Leighton Andrews y materion a ganlyn mewn perthynas â chymwysterau **galwedigaethol**[62]:

> In view of the fact that employers have concerns about some vocational qualifications, should we also narrow the range of vocational qualifications that are taught from 14-19, ensuring there is adequate time for basic skills?
> Is it acceptable that we have subjects taught by teachers not qualified in those subjects? Isn't it time that we focused on quality and rigour, rather than an apparent choice which simply doesn't meet the real needs of learners but panders to the **alphabet's soup of qualifications** set up by the private examination boards?[63]

Mae Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, wrthi'n arwain adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau y gellid eu cynnig i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd Jeff Cuthbert y bydd yr adolygiad yn edrych ar yr holl gymwysterau y gellid eu cynnig i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed (ac nid y rhai galwedigaethol yn unig), a dywedodd,

---

[61] Llywodraeth Cymru, *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: canllawiau ynghylch gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a'r ddogfen Llwybrau Dysgu*, 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

[62] *Review of Vocational Education - the Wolf Report:* cyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth y DU ar addysg galwedigaethol yn Lloegr ym mis Mawrth 2011 a gall hefyd fod o ddiddordeb yn y cyd-destun hwn.

[63] Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, *Gweinidog yn galw am drafodaeth genedlaethol ar bynciau yng Nghymru*, 14 Chwefror 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

> It will focus on what is valuable, and what we mean by that term is **what is likely to help young people to get into employment or self-employment as a result of the courses that they study.**[64]

### *Sgiliau*

Mae Leighton Andrews wedi dweud y bydd y cynllun a fydd yn dilyn menter Adeiladu Sgiliau Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yr haf hwn.[65]

Roedd **Adeiladu Sgiliau** yn rhaglen ddysgu i bob oed a gyflawnwyd drwy ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, ar gyfer pobl nad oeddent eto'n barod neu nad oeddent yn gallu ymgymryd â phrentisiaeth, neu gyfleoedd dysgu neu gyflogaeth pellach.

Bydd y rhaglen olynol yn cynnwys y rhaglen 'hyfforddiaethau' ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed, a'r rhaglen 'Camau at Waith' i oedolion. Bydd y rhaglen hyfforddiaethau 'yn cynnig rhagor o gymorth i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau anoddaf i gyflogaeth', a bydd y rhaglen Camau at Waith i oedolion 'yn parhau i ganolbwyntio ar gyflogadwyedd a bydd yn ymestyn yr arfer da a nodwyd drwy bartneriaethau â chyflogwyr lleol'. Dywedodd Leighton Andrews:

> Yn ogystal â chefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur i geisio'r cyfleoedd y maent yn ei haeddu, bydd y rhaglen Camau at Waith hefyd yn darparu cymorth i oresgyn eu rhwystrau penodol.

Mae datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Gorffennaf 2011 yn datgan y bydd y rhaglen Camau at Waith yn cychwyn 'wythnos nesaf'.[66]

Yn ei *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid ar gyfer 2010-15*, mae Llywodraeth Cymru yn trafod cymhwyster 'menter' neu 'gyflogaeth a sgiliau gwaith' yng nghyd-destun rhaglen olynol i'r cynllun Adeiladu Sgiliau.[67]

Mae **Rhaglen yr Adduned Cyflogwr**[68] yn rhan o brosiect Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle Llywodraeth Cymru[69] ac mae'n rhaglen hyfforddiant sgiliau yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld rhwng mis Ebrill 2010 a 31 Rhagfyr 2015 y bydd y rhaglen Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle yn annog 1,031 o gyflogwyr i gymryd rhan yn y rhaglen Adduniad Cyflogwr, 'godi ymwybyddiaeth o'r angen am weithlu medrus ac i ymrwymo i helpu i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol ar gyfer eu gweithlu'.[70] Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith ochr yn ochr

---

[64] Cofnod y Trafodion [para 82], 13 Gorffennaf 2011, Y Pwyllgor Menter a Busnes [fel ar 2 Awst 2011]
[65] Tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Craffu Menter a Busnes EBC(4)-01-11 Papur 1, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[66] Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, *Admiral yn helpu'r di-waith i gael hyd i waith*, 28 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[67] Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid. Cynllun Gweithredu i Gymru 2010-15*, 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[68] Llywodraeth Cymru, *Yr Adduned Cyflogwr* [fel ar 16 Awst 2011]
[69] Llywodraeth Cymru, *Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle* [fel ar 16 Awst 2011]
[70] *Ibid*

â chymorth sgiliau arall sydd ar gael i gyflogwyr drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu.[71]

Yn ei dystiolaeth i gyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu ym mis Gorffennaf 2011, disgrifiodd Leighton Andrews **Raglen Datblygu'r Gweithlu** fel '[p]rif lwybr i fusnesau gael mynediad at atebion i wella sgiliau eu gweithlu' ac yn cynnwys 'cyllid dethol a dewisol hyblyg'. Ar hyn o bryd, mae cyllidebau dewisol yn cael eu targedu ar gyfer (i) cwmnïau angori; (ii) busnesau sy'n bwysig yn rhanbarthol; (iii) busnesau yn y sectorau blaenoriaeth; a (iv) busnesau twf sy'n gysylltiedig â chreu swyddi. Ceir crynodeb o'r cymorth sydd ar gael i gyflogwyr yn Atodiad 1 o dystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor.[72]

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mewn canllawiau y gall cefnogaeth o dan Raglen Datblygu'r Gweithle gynnwys darparu cynghorydd Datblygu Adnoddau Dynol.[73]

### *Prentisiaethau*

Yn ddiweddar, dywedodd Leighton Andrews:

> Er ein bod wedi ymrwymo i gadw rhaglen Brentisiaeth ar gyfer pob oed, bydd y pwyslais fwyfwy ar greu cyfleoedd i bobl ifanc o dan 25. Roedd hwn yn ymrwymiad pwysig yn y maniffesto.[74]

Mae tri lefel o brentisiaeth ar gael i'r rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn: prentisiaethau sylfaen (cyfwerth â phum gradd TGAU da); prentisiaethau (cyfwerth â dwy radd Safon Uwch), a phrentisiaethau uwch.

Mae **Prentisiaid Sylfaen** yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 2, Sgiliau Allweddol ac, mewn rhai achosion, cymhwyster seiliedig ar wybodaeth berthnasol fel BTEC.

Ar y lefel nesaf, mae **Prentisiaid** yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 3, Sgiliau Allweddol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, tystysgrif seiliedig ar wybodaeth berthnasol fel BTEC. Yn ddelfrydol, er mwyn dechrau ar y rhaglen hon, dylai prentisiaid feddu ar bum cymhwyster TGAU (gradd C neu'n uwch) neu fod wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen.[75] Yn olaf, mae **Prentisiaid Uwch** yn gweithio tuag at gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel

[71] *Ibid*
[72] Y Pwyllgor Menter a Busnes 1 EBC(4)-01-11 Papur 1, *Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau* (Saesneg yn unig), 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[73] Llywodraeth Cymru, *Skills advice and guidance for Businesses/Organisations in Wales* (Saesneg yn unig) [fel ar 16 Awst 2011]
[74] Tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Craffu Menter a Busnes EBC(4)-01-11 Papur 1, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[75] Llywodraeth Cymru, *Lefelau o Brentisiaeth* [fel ar 16 Awst 2011]

NVQ Lefel 4 ac, mewn rhai achosion, cymhwyster seiliedig ar wybodaeth fel Gradd Sylfaen.[76]

Mae **Llwybrau at Brentisiaethau** yn opsiwn ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn barod i ymgymryd â phrentisiaeth gyda cyflogwr, neu sy'n methu dod o hyd i brentisiaeth yn y gweithle. Mae'n flwyddyn o hyfforddiant yn y coleg i'w paratoi ar gyfer prentisiaeth lawn sy'n addas ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25, a fydd yn eu rhoi ar y llwybr cyflum i gymhwyster lefel 2 er mwyn ymgymryd â phrentisiaeth lawn.[77] O 2011/12 ymlaen, caiff Llwybrau at Brentisiaethau eu halinio â'r chwe sector blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, sef TGCh; ynni a'r amgylchedd; deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu; diwydiannau creadigol; gwyddorau bywyd, a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.[78]

Yn ei *Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015,* mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd yn 'ceisio ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc fynd ar raglenni prentisiaeth, gan gynnwys datblygu'r fenter Llwybrau at Brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc fel rhan o'r cynnig am brentisiaeth'. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Gorffennaf 2011, darparodd Leighton Andrews y ffigurau a ganlyn:

> Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau fel llwybr cryf i brentisiaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc. Byddwn yn darparu oddeutu 2,000 o leoedd Llwybrau at Brentisiaeth yn 2011-12 ac yr ydym wedi sicrhau cymorth ariannol ESF i barhau â'r rhaglen hyd 2014.
>
> Eleni, mae'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau wedi'i hymestyn ar draws deg sector yng Nghymru ac mae'r Cynghorau Sgiliau Sector wedi nodi'r galw ymysg cyflogwyr yn rhanbarthol.[79]

Yn ei adroddiad etifeddiaeth, argymhellodd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Trydydd Cynulliad y dylai'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau gael ei fonitro 'i sicrhau bod pobl ifanc sydd am ddilyn prentisiaeth yn cael y cyfle i wneud hynny, a bod cynlluniau ychwanegol ar waith pan yn bosibl i atal prentisiaethau sy'n bod eisoes rhag cael eu cwtogi'.[80]

Datblygiad arall yw'r **Gwasanaeth Paru Prentisiaethau**, a gyflwynwyd yn 2010 i ardaloedd peilot. Yn 2011, dywedodd Leighton Andrews:

[76] *Ibid*
[77] Llywodraeth Cymru, *Llwybrau at Brentisiaethau* [fel ar 16 Awst 2011]
[78] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Sgiliau Ar Gyfer Adnewyddu'r Economi*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 10 Mawrth 2011 [fel ar 16 Awst 2011].
[79] Tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Craffu Menter a Busnes EBC(4)-01-11 Papur 1, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[80] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar 16 Awst 2011]

> Datblygiad pwysig eleni fydd cyflwyno'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Bydd y gwasanaeth hwn a gynigir ar y we yn galluogi prentisiaid posibl i gofrestru, chwilio am brentisiaethau gwag ac ymgeisio am brentisiaethau. Bydd cyflogwyr yn gallu cofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddiant lleol a hysbysebu prentisiaethau gwag.[81]

### *Rhaglen Recriwtiaid Ifanc a Llwybr at Waith*

Mae'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn cynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cyflogi prentis rhwng 16 a 24 oed. Yn ei *Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015,* mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd yn:

> Ceisio ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc fynd ar raglenni prentisiaeth, gan gynnwys datblygu'r fenter Llwybrau at Brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc fel rhan o'r cynnig am brentisiaeth.

Ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd Leighton Andrews y 'bydd mil o leoedd ar gael [ar y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc] eleni, ac mae'r lefel gweithgaredd hon wedi'i chynnwys wrth ddyrannu contractau'.[82]

Hefyd, cynhelir peilot 'Llwybr at Waith' newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed. Disgrifir y peilot fel a ganlyn:

> Treialu 'Llwybr at Waith' newydd i bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed. Ni fydd hon yn rhaglen newydd ond yn un 'llwybr' hyblyg a chydlynol i bobl ifanc. Byddai'n cyfuno'r dulliau cyfredol, wedi'u gwella lle bo angen, i fod yn rhaglen sy'n cynnig llwybr hyblyg ond sydd hefyd yn llwybr integredig a pharhaus tuag at gyflogaeth gynaliadwy neu ganlyniad positif arall. Bydd cyflawniadau'r person ifanc yn cael eu dathlu ar bwyntiau allweddol ar hyd y llwybr, gan gynnwys cyflawniadau sgiliau meddal.[83]

### *Profiadau a chysylltiadau â chyflogwyr*

Mae'r *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn 'sicrhau mwy o gyfleoedd am brofiad gwaith i rai rhwng 14 a 24 oed ledled Cymru, gan gynnwys mwy o gyfleoedd o fewn Llywodraeth [..] Cymru, y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach'. Mae hefyd yn datgan y bydd yn dechrau defnyddio cymalau cymdeithasol yng nghontractau caffael Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach 'er mwyn creu cyflogaeth ieuenctid, profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddiant lle bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys cymorth i'r rheini sy'n cael grantiau a chymorth gan y llywodraeth'.[84]

Cafodd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Trydydd Cynulliad dystiolaeth ei bod yn ymddangos bod llwyddiant yn fwy tebygol pan gysylltir â chyflogwyr yn unigol ac

---

[81] Tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Craffu Menter a Busnes EBC(4)-01-11 Papur 1, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[82] *Ibid*
[83] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-15* [fel ar 16 Awst 2011]
[84] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Sgiliau ar gyfer Datblygu Economaidd*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 10 Mawrth 2011 [fel ar 16 Awst 2011]

fe'u hanogir i roi cyfle i berson ifanc, yn hytrach na thrwy ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol.[85]

### *Cronfa Swyddi Cymru*

Mae Maniffesto Llafur Cymru 2011 yn cynnwys ymrwymiad i 'sefydlu Cronfa Swyddi Cymru yn cynnig cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer ein pobl ifanc'. [86] Ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd Leighton Andrews:

> Yr ydym yn ystyried cynigion i gyflwyno rhaglen newydd i gyflawni'r adduned ynghylch Cronfa Swyddi Cymru yn y maniffesto, a fyddai'n creu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc 16-24 mlwydd oed. Mae cynigion wrthi'n cael eu datblygu i'w rhoi ar waith, gyda'r bwriad o ddechrau darparu'n llawn yn gynnar yn 2012.[87]

### Menter Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd

Mae menter Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn bartneriaeth strategol rhwng Prifygol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd.[88] Mae'n creu partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Prifysgol Morgannwg; Prifysgol Cymru, Casnewydd; Coleg Merthyr; Coleg Gwent a Llywodraeth Cymru. Ei amcan a'i ddiben yw cynnig gwelliannau a newid trawsnewidiol ar gyfer addysg i bob oed ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd.[89] Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan:

> The programme will strive to deliver a pathway through education and training from primary through to HE by engaging with and exciting young people. This is especially important at the ages of 14 to 16 where a clear pathway through to HE must be demonstrated to ensure continued participation in education and training.[90]

Mae adroddiad gan Sefydliad Bevan yn cyfeirio at ystyried dylanwadau personol a diwyllianol ar fyfyrwyr mewn cymunedau difreintiedig a phwysigrwydd y lleoliad ei hun. Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriad at y rhaglen 'Challenge' sydd ar waith yn Llundain, Manceinion Fwyaf a'r Ardal Ddu, a menter Blaenau'r Cymoedd yng Nghymru.[91]

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at integreiddio meysydd polisi a'r ffrydiau ariannu sy'n dylanwadu ar addysg a sgiliau (er enghraifft, Cymunedau'n Gyntaf, y Strategaeth Tlodi Plant, Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, yr Agenda Trawsnewid,

---

[85] *Tystiolaeth gan Gyrfa Cymru ar gyfer yr ymchwiliad i bobl ifanc NEET* , 10 Mehefin 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[86] *Maniffesto Llafur Cymru 2011. Sefyll Cornel Cymru*, gwybodaeth gan Llafur Cymru 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[87] Tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor Craffu Menter a Busnes EBC(4)-01-11 Papur 1, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[88] Gwefan Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd [fel ar 16 Awst 2011]
[89] Llywodraeth Cymru, *Extension to the contract to develop an education strategy for the Heads of the Valleys Region under the Heads of the Valleys Education Programme* (Saesneg yn unig), 9 Mehefin 2011 [fel ar 16 Awst 2011]
[90] *Ibid*
[91] Sefydliad Bevan, *Poverty and Social Exclusion in Wales*, Rhagfyr 2010 [fel ar 16 Awst 2011]

Strategaeth Economaidd Blaenau'r Cymoedd, Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd), er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r gefnogaeth gorauposibl i ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n cyfranogi ac yn cyflawni mewn addysg ac felly yn lleihau'r bwlch.[92]

## *4.2. Mentrau, strategaethau, a darpariaeth leol*

### ***Strategaethau lleol***

Yn ychwanegol at y polisïau a'r mentrau ar lefel Llywodraeth y DU (gweler adran 4.3) a Llywodraeth Cymru, mae nifer fawr o strategaethau lleol sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gall cymorth a ddarperir ar lefel leol gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc; gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol; partneriaethau 'Cadw mewn cysylltiad'; Gyrfa Cymru a sefydliadau yn y trydydd sector.

Yn ystod ei ymweliad â Chanolfan Info-Nation yn Abertawe ym mis Mehefin 2010, clywodd y Pwyllgor Menter a Dysgu bod prosiect NEET Cyngor Dinas a Sir Abertawe, o dan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol / Rhaglen Plant a Phobl Ifanc, yn anelu at gefnogi pobl ifanc rhwng 16 i 18 oed i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant parhaol. Mae wedi bod yn weithredol ers dwy flynedd ac mae'n cynnwys pob ysgol uwchradd ac uned yn Abertawe, yn ogystal â disgyblion sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol. Caiff ei gyflwyno drwy bartneriaeth aml-asiantaeth. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Gyrfa Cymru Gorllewin, gan gynnwys y staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol.

Clywodd y Pwyllgor fod strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn cynnwys nifer o fentrau. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb aml-asiantaeth; sail dystiolaeth gadarn ar gyfer llywio cynllunio ac ymyrraeth; adnabod yn gynnar y rhai sydd "mewn perygl" o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Mlwyddyn 11; gwaith ymyrryd ac atal; rhaglenni ymgysylltu wedi'u targedu yn ystod y Pasg a gwyliau'r haf; gwaith allgymorth; a dull integredig o ddarparu gwasanaeth er mwyn rhoi cymorth a chyngor arbenigol.[93]

Mae cyhoeddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig yn cynnwys erthygl sy'n tynnu sylw at ddull gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen.[94] Mae Tor-faen yn canolbwyntio ar bum elfen graidd sy'n elfennau allweddol er mwyn lleihau risg pobl ifanc o gael statws NEET. Yr elfennau yw: (i) Blynyddoedd Cynnar - Dechrau'n

---

[92] Sefydliad Bevan, *Poverty and Social Exclusion in Wales*, Rhagfyr 2010 [fel ar 16 Awst 2011]
[93] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar16 Awst 2011]
[94] Provis, M., *A local authority perspective on engaging all young people: Torfaen CBC*, a gyhoeddwyd yn *Engaging Wales' Disengaged Youth* gan y Sefydliad Materion Cymreig, Tachwedd 2010, p3. Ar gael o Lyfrgell yr Aelodau.

Deg a Cychwyn Cadarn; (ii) Iaith, llythrennedd a meddwl; (iii) Gwella sgiliau staff ar lefel uwchradd; (iv) cymorth ychwanegol ac eithriadol, a (v) llwybrau dysgu 14-19.

Mae adroddiad a gomisiynwyd gan y Grŵp Llywodraeth Leol yn amlinellu gwaith cynghorau Swydd Gaerwrangon a Tower Hamlets yn Lloegr, a arwchwilodd y ffactorau sy'n sail i statws NEET yn eu hardaloedd drwy ymgynghori â phobl leol. Yna, cynlluniwyd a gweithredwyd cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu, yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil.[95]

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod nifer o awdurdodau lleol [yn Lloegr] wedi defnyddio Lles Cynllunio (adran 106) er mwyn creu prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth, er nad oedd hyn yn benodol ar gyfer pobl ifanc NEET. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am fodel gwarantu swydd Leeds, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Tesco ac a ddefnyddiwyd i recriwtio pobl leol ar gyfer siop Tesco newydd yn Seacroft. Yn ôl yr adroddiad, bellach mae gan Gorfforaeth Dinas Llundain ardoll o 5 y cant sy'n cyllido mentrau cyflogaeth a hyfforddiant, ac mae nifer ohonynt wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc NEET a chyn-NEET.[96]

### *Prosiectau a mentrau*

Mae llawer o brosiectau awdurdodau lleol a thrydydd sector sy'n ymwneud â phobl ifanc NEET wedi elwa o gyllid Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r trefniadau ariannu presennol o dan y polisi cydlyniant (sy'n cynnwys cronfeydd strwythurol) yn dod i ben yn 2013. Mae trafodaethau ar gyllid Ewropeaidd ar ôl 2013 yn mynd rhagddynt yn yr UE ac yng Nghymru, a bydd canlyniad trefniadau ariannu ar gyfer Cymru ar ôl 2013 o ddiddordeb i randdeiliaid allweddol yn y maes polisi hwn.

Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol a datblygiadau o fewn llywodraeth leol—a fydd yn arwain at fwy o gydweithredu a rhannu gwasanaethau—hefyd yn cael effaith ar ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc NEET yn y dyfodol.

Mae llawer o enghreifftiau o fentrau a phrosiectau lleol sydd wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Dyma rai enghreifftiau:

**Pre-VENT**: Prosiect cydweithredol rhwng cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thor-faen sydd â'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol o ymddieithrio a, thrwy hynny, y duedd i fod yn anweithgar yn economaidd.[97] Mae'r cynllun hefyd yn cydweithio gyda cholegau addysg bellach yn yr ardal ac yn ceisio codi dyheadau pobl ifanc ac annog mwy o bobl i fanteisio

---

[95] Bramley, G., Phillips, L. a MacLeod, S. (2011). ***Hidden talents - exploiting the link between engagement of young people and the economy***, Slough: NFER [fel ar16 Awst 2011]
[96] *Ibid*
[97] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, **Prosiectau 2007-2013 yr UE** a Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, **£13 miliwn i helpu pobl ifanc yn y De, 20 Mehefin 2011** [fel ar16 Awst 2011]

ar gyfleoedd mewn Addysg Bellach ac Uwch.[98] Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cymorth a hyfforddiant mewn ysgolion a lleoliadau allgymorth.

**YMGYSYLLTU:** Menter awdurdod lleol ac addysg bellach sy'n cael ei arwain gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar y cyd gyda chynghorau Abertawe, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a cholegau Addysg Bellach ar draws y rhanbarth. Mae'r fenter yn targedu pobl ifanc rhwng 14 a 16 oed sy'n wynebu anawsterau fel tangyflawni neu absenoldeb, a phobl ifanc rhwng 16 a 19 oed sydd eisoes yn y coleg, ond sydd mewn perygl o adael.[99]

**Genesis Cymru Wales 2**: Mae'r prosiect hwn yn anelu at gynyddu cyfranogiad y farchnad lafur drwy nodi a darparu cymorth i unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.[100] Prif ffocws y prosiect yw helpu rhieni unigol benywaidd sy'n anweithredol yn economaidd, ond mae hefyd yn cynorthwyo nifer o grwpiau eraill sydd o dan anfantais a allai fod yn perthyn i'r categori hwn, er enghraifft pobl NEET neu bobl du a lleiafrifoedd ethnig.[101]

**Cyrraedd y Nod – Troedle Cyntaf:** Mae'r fenter hon yn anelu at gryfhau'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed sy'n NEET neu'n mewn perygl o fod yn NEET.[102] Yn ystod ei ymweliad â'r ganolfan Info-Nation yn Abertawe, gwelodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ffilm fer o'r enw "I'm a NEET" a gynhyrchwyd gan rai o'r bobl ifanc yno. Mae'r ffilm yn defnyddio'u profiadau o geisio cael gwared ar y label NEET a mynd i'r afael â rhai tybiaethau cyffredin am bobl NEET. Cafodd y ffilm ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy'r rhaglen Cyrraedd y Nod.

**Neetly into Business:** Prosiect sy'n cael ei redeg gan Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru, sefydliad dielw yn Llanelli, sy'n anelu at alluogi pobl ifanc sydd â dawn neu syniadau busnes i ddechrau arni drwy ddefnyddio sgiliau menter, NVQ mewn hunangyflogaeth, a mentora gan y gymuned fusnes leol. Ariennir y prosiect drwy brosiect Porth Ymgysylltu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a chaiff ei gefnogi gan gyllid Ewropeaidd. Mae dogfen gan y Cyngor, sydd i'w weld yn y troednodiadau isod, yn nodi rhai o safbwyntiau bobl ifanc a oedd yn rhan o'r prosiect.[103]

Mae **Rhaglen Ganolradd y Farchnad Lafur,** sy'n cael ei redeg gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, hefyd yn cael cymorth arian Ewropeaidd. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfnod o gyflogaeth wedi'i dalu a hyfforddiant i helpu pobl i

---

[98] *Ibid*
[99] Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, **Hwb ariannol o £32m i 'YMGYSYLLTU' â phobl ifanc**, 12 Tachwedd 2009 [fel ar16 Awst 2011]
[100] Llywodraeth Cymru, **Genesis Cymru Wales 2** [fel ar16 Awst 2011]
[101] *Ibid*, a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, **Prosiectau 2007-2013 yr UE** [fel ar16 Awst 2011]
[102] ***ESF Convergence Programme 2007- 2013 Approved Projects: List of EU Beneficiaries as at 02/06/2011*** [fel ar16 Awst 2011]
[103] Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ***Changing lives. How European funding is helping Wales' third sector change lives*, Mai 2011 [fel ar16 Awst 2011]**

oresgyn rhwystrau i waith a magu hyder.[104] Yn wreiddiol, roedd y rhaglen gyntaf yn weithredol ar draws Gogledd a Dwyrain Cymru, ac yn 2011 cyhoeddodd Leighton Andrews gynllun peilot chwe mis o'r rhaglen ar gyfer pobl 16 a 17 oed mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf mewn rhannau o Dde a Gorllewin Cymru.[105] Cafodd sylwadau'r cynrychiolwyr eu crynhoi mewn dogfen gan Lywodraeth Cymru, a cheir detholiad ohoni isod:

> Sicrhau bod darpariaethau eraill yn cyd-fynd â'i gilydd: mae'n bosibl y gallai diffyg cyfathrebu â chynlluniau eraill ledled Cymru i gynorthwyo pobl ifanc arwain at ddyblygu neu sefyllfa lle na fydd cynlluniau ategol o bosibl yn cyd-fynd yn effeithiol â'r ILM. Yn yr un modd, nododd rhai o'r cynrychiolwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan y prosiectau peilot newydd o baru pobl ifanc i swyddi gysylltiad agos â'r gwaith o ddatblygu'r ILM. [106]

Mae **Gwobr Effaith Gymunedol Tywysog Cymru** yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol grŵp o bobl ifanc yn eu cymuned leol. Yn ddiweddar, cafodd ei ddyfarnu i Buzz Bikes - clwb seiclo awyr agored a sefydlwyd gan saith o fechgyn 15 a 16 oed, sydd wedi'i gynllunio i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Blaenau, Blaenau Gwent.[107]

Mae nifer fawr o sefydliadau yn darparu cefnogaeth ar lefel leol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor Menter a Dysgu dystiolaeth gan Rathbone Cymru, Fairbridge De Cymru ac Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru, a amlinellodd rhai o'u gweithgareddau.[108]

### *Cydweithio a dyblygu darpariaeth*

Un feirniadaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc NEET ar lefel leol yw bod y ddarpariaeth yn cael ei dyblygu ac y gall cydweithio rhwng asiantaethau fod yn brin, yn enwedig mewn perthynas â mentrau a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd. Cyfeirir at syndrom 'drws troi' neu 'drosiant NEET' yn y cyd-destun hwn, ac mae'n cyfeirio at pan fydd pobl ifanc yn symud rhwng darparwyr, i mewn ac allan o statws NEET, ond heb gael budd gwirioneddol yn y tymor hir.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, cyfeiriodd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru at ddiffyg dadansoddiad strategol o angen ar sail ddaearyddol. Felly, pan fydd sefydliadau'n cyflwyno ceisiadau am arian yn annibynnol ac mewn cystadleuaeth â'i gilydd, yn aml roedd toreth o ddarpariaeth debyg gyfer pobl NEET yn yr un ardal, yn cyflenwi gwasanaethau ar yr un pryd. Soniodd yr

---

[104] *Ibid*
[105] Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, **Bron i £1 miliwn i helpu pobl ifanc 16-17 oed i gael gwaith, 10 Chwefror 2011 [fel ar16 Awst 2011]**
[106] Llywodraeth Cymru, **Digwyddiad Lansio'r Farchnad Lafur Drosiannol** [fel ar16 Awst 2011]
[107] Ymddiriedolaeth y Tywysog, **Buzz Bikes** [fel ar16 Awst 2011]
[108] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, 15 Hydref 2010 [fel ar16 Awst 2011]

Ymddiredolaeth am sefyllfa ddiweddar yn Sir Benfro lle roedd gan raglen Cyrraedd y Nod ar gyfer pobl NEET gan Gyngor Celfyddydau Cymru leoedd dros ben. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod prosiectau a ariennir o dan Raglen Gydgyfeirio'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd yn achosi pryder arbennig i awdurdodau lleol. Dadleuodd CLlLC ei fod yn bosibl na fydd prosiectau *Cyrraedd y Nod*, er enghraifft, yn cyd-fynd yn strategol â chynlluniau Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, a'i fod yn bosibl y byddant yn dyblygu gwasanaethau presennol.

Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu fod 'corff o bryder' y dylai asiantaethau lleol weithio ar y cyd mewn ffordd fwy cydlynol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.[109] Mae'r adroddiad yn argymell bod Gweinidogion Cymru'n nodi asiantaeth arweiniol ar lefel leol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac y dylai'r asiantaeth hon gydlynu partneriaethau, nodi cyfrifoldebau, rheoli'r daith ar gyfer pobl ifanc o un cyfnod i'r llall, a monitro perfformiad.[110]

Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, sy'n gyson â'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc. Mae pwysigrwydd partneriaethau effeithiol, yn genedlaethol a lleol, wedi'u nodi'n gryf iawn drwy gydol y broses hon. Mae dull amlasiantaethol gyda lefelau uwch o gydweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn cael ei esgeuluso, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid, yn un o'r meysydd allweddol y bydd y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn mynd i'r afael ag ef. Mae eglurder o ran rolau, systemau olrhain, rhannu gwybodaeth a monitro perfformiad cadarn oll yn rhan allweddol o hyn. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yw un o'r cyfryngau ar gyfer cydgysylltu darpariaeth leol yn erbyn polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd ei lwyddiant yn amlwg dros amser ar ffurf canlyniadau gwell i bobl ifanc yng Nghymru.[111]

Yn ei *Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011,* dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn:

> Cynnal adolygiad o'r cyllid a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc o bob rhan o Gymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan gynnwys rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i hysbysu a chyflwyno proses ddiwygiedig ar gyfer cymeradwyo prosiectau ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc gan sicrhau bod adnoddau a gweithgareddau yn diwallu'r angen, nad ydynt yn cael eu dyblygu a'u bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'r person ifanc.[112]

## *4.3. Polisïau ar lefel y DU*

Ym mis Chwefror 2010, lansiodd Leighton Andrews y Fframwaith Farchnad Lafur gydag Ysgrifennydd y DU dros Waith a Phensiynau ar y pryd. Roedd hyn yn

---

109 *Ibid*
110 *Ibid*
111 ***Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant***, 5 Ionawr 2011 [fel ar16 Awst 2011
112 Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015* [fel ar16 Awst 2011]

canolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd; codi enillion pobl sydd mewn gwaith; a gwella gwasanaethau i gyflogwyr.

Ym mis Ebrill 2010 cyhoeddodd y Gweinidog Gynllun Gweithredol ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n ffurfioli trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflwyno polisïau a rhaglenni y mae'r ddwy Lywodraeth yn gyfrifol amdanynt. Byddai **Bwrdd Cyflenwi Cyflogaeth ar y Cyd** yn bwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu a'i fonitro, a bydd yn adrodd i Weinidogion ynghylch cynnydd yn flynyddol. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Rydym am ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni i fynd i'r afael ag anweithgarwch ymysg pobl ifanc a diweithdra hirdymor. Rydym am alluogi pob grŵp dan anfantais i ymuno â'r farchnad lafur drwy ddarparu amrywiaeth o raglenni; rydym am ddarparu'r gweithlu medrus sydd ei angen ar gyflogwyr; ac rydym am sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl drwy adfywio.[113]

Yn ei *Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc,* dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sicrhau bod mentrau'r Llywodraeth yn ategu'r rhaglenni a gyflwynir gan ddiwygiadau lles yr Adran Gwaith a Phensiynau, ond na fyddant dyblygu'r rhaglenni hynny. Yn ddiweddar, dywedodd Leighton Andrews y bydd y Bwrdd Cyflenwi Cyflogaeth ar y Cyd yn cyflwyno cynigion **yn hwyrach eleni** i ddatblygu'r perthnasau a'r protocolau rhyngasiantaeth angenrheidiol i ddarparu cymorth cydlynol ar gyfer busnesau. Dywedodd hefyd:

> Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ein siom gyda'r cynigion yn Agenda Diwygio Lles Clymblaid y DU. Yn ystod y misoedd diwethaf, yr wyf wedi cael trafodaeth reolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'i dim gweinidogol, i ddadlau am ddull mwy blaengar i ddelio a'r rheini sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais. Yr oeddwn yn hynod siomedig o glywed am benderfyniad Llywodraeth Glymblaid y DU i roi'r gorau i'r Gronfa Swyddi'r Dyfodol, rhaglen y mae partneriaid o bob cwr o Gymru wedi ei chefnogi.[114]

### *Rhaglenni 'O Fudd-dâl i Waith'*

Mae cytundeb clymblaid Llywodraeth y DU yn datgan y byddai'n rhoi terfyn ar y rhaglenni 'o fudd-dal i waith' presennol a chreu un rhaglen 'o fudd-dal i waith' i helpu pob person di-waith ddychwelyd i'r gwaith.[115] Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith y bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cynnwys creu **Rhaglen Waith** sy'n

---

[113] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), ***Cyd-gynllun gweithredol i Gymru,*** Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 27 Ebrill 2010 [fel ar16 Awst 2011]

[114] Roedd Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn helpu i "greu swyddi ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn ddiwaith am gyfnod hir a phobl eraill sy'n wynebu anfantais fawr yn y farchnad lafur." Roedd yn ffurfio rhan o'r Gwarant i Bobl Ifanc (gwarant o gynnig o swydd, hyfforddiant neu brofiad gwaith i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed ar ôl 24 mis o ddiweithdra) . Penderfynwyd na fyddai'r gronfa yn derbyn unrhyw gynigion eraill o ganlyniad i gyhoeddiad y Llywodraeth ar arbedion effeithlonrwydd ym mis Mai 2010. Gweler **Future Jobs Fund**, yr Adran Gwaith a Phensiynnau 16 Mai 2011 a **Cronfa Swyddi'r Dyfodol**, gwybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru [fel ar16 Awst 2011]

[115] Llywodraeth EM, ***The Coalition: our programme for government***, 2011 [fel ar16 Awst 2011]

cynnig cymorth personol ar gyfer pawb sy'n hawlio budd-daliadau ac sydd allan o waith, gan gynnwys pobl ifanc.[116]

Bydd y **Rhaglen Waith** yn disodli rhaglenni 'o fudd-dâl i waith' presennol fel Cronfa Swyddi'r Dyfodol, ac mae'n rhan o'r rhaglen 'Get Britain Working'. Dechreuwyd cyflwyno'r Rhaglen Waith ym mis Mehefin 2011.[117]

Mae'r mesurau o dan y cynllun 'Get Britain Working' sydd, o bosibl, yn berthnasol i bobl ifanc NEET yng Nghymru yn cynnwys Lwfans Menter Newydd, Profiad Gwaith ac Academïau Gwasanaeth (i gynnig hyfforddiant a lleoliadau gwaith cyn-gyflogaeth mewn sectorau penodol) a Work Together (sy'n ymwneud â gwirfoddoli).

Yn ei Adroddiad Etifeddiaeth, mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn nodi ei fod yn 'bryderus ynghylch effaith Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU ar bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru, yn enwedig y bygythiad i rôl fugeiliol staff rheng flaen yr Adran Gwaith a Phensiynau'. Mae'n argymell:

> 'Dylai pwyllgorau'r dyfodol annog Llywodraeth Cymru i weithio'n agos ag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU a dylent fonitro effaith Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU, yn enwedig sut mae'n effeithio ar y gofal bugeiliol a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ddi-waith yng Nghymru.[118]

## 5. Rhai casgliadau

Mae yna gost i'r unigolyn a chost i'r gymdeithas yn gysylltiedig â phobl ifanc yn bod yn NEET.

Ceir cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel, ac mae'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn dod yn NEET yn cynnwys amgylcheddau cartref ansefydlog, mamau yn eu harddegau a lefelau llythrennedd isel. Mae pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar yn aml yn cael ei amlygu mewn perthynas â'r ddadl ynghylch 'NEET'.

Mae strategaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc NEET yn cwmpasu nifer o feysydd polisi a chânt eu datblygu ar lefel y DU, lefel Cymru a'r lefel leol. Mae'r darlun o'r ddarpariaeth yn gymhleth. Mae'r polisïau perthnasol yn cynnwys datblygu economaidd, iechyd meddwl, addysg, hyfforddiant a sgiliau, budd-daliadau gwaith, iechyd a lles. Mae sylwebyddion yn aml yn nodi pa mor bwysig yw mabwysiadu dull integredig o ddarparu gwasanaethau.

[116] ***Tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynnau a'r Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer yr ymchwiliad i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru***, gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru [fel ar16 Awst 2011]

[117] Datganiad i'r Wasg gan yr Adran Gwaith a Phensiynnau, ***Work Programme provides tailored support as latest figures show people are being found fit for work***, 26 Gorffennaf 2011 [fel ar16 Awst 2011] I gael gwybodaeth gefndir am y rhaglenni 'O fudd-dâl i waith', gweler Harari, D. Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin SN/EP/5627 ***Welfare to Work Programmes: An overview***, Rhagfyr 2010 [fel ar16 Awst 2011]

[118] Y Pwyllgor Menter a Dysgu, ***Adroddiad etifeddiaeth***, Mawrth 2011 [fel ar16 Awst 2011]

Yn ôl rhai, mae hefyd angen bod yn realistig. Mae adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu gan y prosiect 'Dewis Cyntaf' ar gyfer pobl ifanc yn Abertawe yn trafod yr angen am gadw pobl ifanc ar y trywydd cywir yn feddyliol ac yn ysbrydol, dros yr hyn a allai fod yn gyfnod o ddiweithdra.[119] Mewn adroddiad gan Sefydliad Materion Cymreig ar ymgysylltu pobl ifanc, mae Howard Williamson, Athro Polisi Ieuenctid Ewrop ym Mhrifysgol Morgannwg, yn gofyn y cwestiynau canlynol:

> It is a very difficult thing to say but, having mooted the point already, there is an argument that, in the aspirational 'knowledge-based economy' that is the Europe of the future, the young people who are 'NEET' will struggle to find any place in private (and perhaps even public) sector arrangements. The 'fit' referred to above may rarely be achievable. **Should we now bite this awful bullet and think much harder about how we might give those who are 'NEET' (or at risk of it) some alternative hope for their futures through what might be called, drawing on the substance misuse field, a 'harm reduction' model (or public works, social activity and subsidised personal enterprise)?** It may ultimately be better than trying to fob them off with poor and temporary work and training experience that may be more of a revolving door than a clear point of entry into permanent and sustainable employment.[120] [Fy mhwyslais i].

## *5.1. Edrych ymlaen*

Mae'n bosibl y bydd y materion a ganlyn yn cael effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol: newidiadau i gyllidebau awdurdodau lleol; arian trydydd sector; argaeledd arian y loteri ar gyfer prosiectau lleol; penderfyniadau ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol a datblygiadau o fewn llywodraeth leol a allai arwain at fwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys mwy o rannu gwasanaethau.

Mae heriau penodol eraill ar gyfer llunwyr polisi a darparwyr yn cynnwys: argaeledd cyflogaeth; gwell darpariaeth o hyfforddiant sgiliau sylfaenol; datblygu sgiliau a chymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys cyfleoedd sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth); datblygu dulliau cymunedol o ddysgu ac ymgysylltu; peidio â dyblygu darpariaeth; costau addysg uwch a mathau eraill o ddysgu; a darparu cymorth effeithiol personol a mentora. Gall pryderon ynghylch costau addysg uwch hefyd arwain at gynnydd yn y diddordeb mewn prentisiaethau a hyfforddiant

[119] First Choice Project / Prosiect Dewis Cyntaf, crynodeb o'r adroddiad terfynol, Tachwedd 2010. Ariennir y Prosiect Dewis Cyntaf gan raglen 'Reach the Heights' Rhaglen Cronfa Cymdeithasol Ewrop a ddosberthir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
[120] Williamson, H., *Delivering a 'NEET' solution: an essay on an apparently intractable problem,* cyhoeddwyd yn *Engaging Wales' Disengaged Youth* gan y Sefydliad Materion Cymreig, Tachwedd 2010, t3. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau.

yn y gwaith.[121] Bydd casgliadau adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau hefyd o ddiddordeb yn y cyd-destun hwn.[122]

Er bod dadleuon ynghylch y ffurf y dylai strategaethau gymryd a'r ffordd orau o'u gweithredu, mae prosiectau penodol yn cynrychioli 'llinell bywyd hanfodol' '[123] i unigolion NEET.

Mewn erthygl a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig, mae Frank Callus *(Rheolwr Strategol, Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau,* Rhaglen Blaenau'r Cymoedd) yn gwneud y sylwadau diddorol a ganlyn:

> Low educational attainment, inadequate housing, poor health and economic inactivity are **not distinct outcomes of specific life-choices but the inevitable result of multiple deprivation. The problems are complex and so are not likely to be resolved by simplistic solutions.**[124]

---

[121] ***Rising uni fees 'may mean more apprentices in Wales***, newyddion y BBC [arlein] 29 Ionawr 2011. [fel ar16 Awst 2011]

[122] Cynyddodd Deddf Addysg a Sgiliau 2008 yr oed pan gaiff pobl ifanc yn Lloegr adael addysg orfodol, gan ei gwneud yn ofynnol ei bod yn parhau i gael eu haddysgu neu ymgymryd â hyfforddiant hyd nes eu bod yn 17 oed o 2013 ymlaen ac hyd nes eu bod yn 18 o 2015 ymlaen.

[123] Y Sefydliad Materion Cymreig, *Engaging Wales' Disengaged Youth,* Tachwedd 2010, t3. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau.

[124] Callus, F. *Pre-VENT: an education initiative in the Heads of the Valleys*, cyhoeddwyd yn *Engaging Wales' Disengaged Youth* gan y Sefydliad Materion Cymreig, Tachwedd 2010. Ar gael o lyfrgell yr Aelodau.